

Yr ap GIG COVID-19

Poster QR ar gyfer busnesau






Cyflwyniad

Bydd yr ap GIG COVID-19 newydd yn helpu i reoli lledaeniad **Coronafeirws**.



Mae ap yn rhaglen sydd gennych ar eich ffôn i'ch helpu i wneud rhywbeth.



Mae **Coronafeirws** yn salwch newydd sy'n lledaenu o gwmpas y byd.

Mae'n cael effaith ar eich ysgyfaint ac anadlu.



Gwirio i leoedd

Bydd yr ap newydd yn helpu pobl i wirio i leoedd y byddant yn ymweld â hwy.



Mae hyn er mwyn iddynt ganfod os oes pobl eraill, sydd wedi bod yno ar yr un pryd, â **Coronafeirws**.




Busnesau

Os oes gennych fusnes y dywedwyd wrtho i gael poster QR GIG, mae angen i chi arddangos hyn i ganiatáu i bobl wirio i mewn pan fyddant yn ymweld â chi.

Rhai o'r busnesau a gynhwysir yw:



- caffis a thai bwyta



- gwestyau ac amgueddfeydd



- siopau trin gwallt a salonau harddwch




- neuaddau tref a llyfrgelloedd



Yn Lloegr, mae'n rhaid i chi gael manylion cyswllt gan unrhyw un sy'n ymweld â'ch busnes sydd ddim yn defnyddio'r ap GIG COVID-19 i wirio.



Mae hyn er mwyn i chi allu rhoi gwybod iddynt os ydych chi'n canfod os yw pobl, sydd wedi bod yno ar yr un pryd, â Coronafeirws.



Yng Nghymru, mae'n rhaid i chi gael manylion cyswllt gan bawb, hyd yn oed os ydynt yn defnyddio'r ap i wirio.



Poster QR

I helpu pobl i wirio i'ch busnes, gofynnwch am boster â **chod QR GIG** arno.



Sgwâr yw **cod QR** wedi'i wneud o ddotiau bach.



Os ydych chi'n defnyddio'r ap i bwyntio'r camera ar eich ffôn at y poster QR GIG, bydd yn eich gwirio i mewn.



Bydd yn dweud wrth yr ap GIG
COVID-19 eich bod wedi gwirio i mewn.



Rydych chi'n gallu cael poster QR ar
gyfer eich busnes trwy fynd i'r wefan
hon: www.gov.uk/create-coronavirus-qr-poster



Bydd y poster QR yn cael ei anfon at
eich cyfeiriad e-bost. Bydd angen i chi ei
brintio wedyn.



Dylech chi roi eich poster QR i fyny lle
bydd pobl yn gallu'i weld yn hawdd pan
fyddant yn ymweld â chi.



Am ragor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth am yr ap GIG
COVID-19 newydd ewch i:
www.covid19.nhs.uk